CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG**

# GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (FFYRDD AMRYWIOL) (CYFLWYNIAD O GLUSTOGFEYDD) 2026

Crëwyd: 24 Mawrth 2026

Yn dod i rym: 15 Ebrill 2026

Mae **CYNGOR BWRDEISTREF SIR PEN-Y-BONT AR OGWR** ("y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 82(2) ac 84 a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a phob pŵer galluogi arall ac yn dilyn ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol ag adran 124 a Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Ebrill 2026 a gellir ei alw'n Orchymyn Rheoleiddio Traffig Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Amrywiol Ffyrdd) (Cyflwyno Custogfeydd) 2026.

2. Yn y Gorchymyn hwn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall

    a. mae gan "ffordd gyfyngedig" yr ystyr a roddir yn adran 82 o'r Ddeddf;

    b. mae "ffordd" yn golygu priffordd y mae gan y cyhoedd fynediad iddi ac mae'n cynnwys rhan o ffordd.

3. Yn y Gorchymyn hwn ystyr "cerbyd esempt" yw

    a. unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn Adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984

    b. unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr, ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig-

        i. mewn ymateb, neu er mwyn ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch cenedlaethol gan berson sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymder uchel: neu

        ii. at ddibenion hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymder uchel,

    ystyr "lluoedd arbennig" yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd, neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n gymwys ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

5. Mae'r pellteroedd a bennir yn Atodlen 1 yn cynrychioli'r brasamcan ymarferol gorau o'r pellter ar adeg ei fesur.

6. I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn yn gwrthdaro â darpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn Gorchymyn sydd wedi'i wneud - neu sydd ag effaith fel pe bai wedi'i wneud - o dan y Ddeddf sy'n bodoli ar yr adeg y daw'r Gorchymyn hwn i rym ac sy'n gosod cyfyngiad neu waharddiad ar gerbydau ar yr adran o ffordd a bennir yn Erthygl 8, y ddarpariaeth honno yn y Gorchymyn hwn fydd drech.

7. Ac eithrio fel y darperir yn erthygl 7, bydd y gwaharddiadau neu'r gofynion a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at ac nid yn rhanddirymiad o unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodir gan unrhyw reoliad a wneir neu sydd ag effaith fel pe bai wedi ei wneud o dan y Ddeddf neu gan neu o dan unrhyw ddeddfiad arall.

8. Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y terfynau cyflymder o 40 milltir yr awr sydd mewn grym ar hyn o bryd o dan Orchymyn Rheoleiddio Traffig Dros Dro Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Amrywiol Ffyrdd) (Cyflwyno Clustogfeydd) 2025 yn barhaol, a

gyflwynodd "glustogfeydd" 40-mya dros dro ar y darnau o ffyrdd a bennir yn Atodlen 1 isod.

9. Mae Atodlen 2 isod yn nodi dirymiad canlyniadol o adran o orchymyn presennol.

10. Ac eithrio ar gyfarwyddyd swyddog heddlu mewn lifrai, ni chaiff unrhyw berson beri i unrhyw gerbyd gael ei yrru ar gyflymder sy'n fwy na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r ffordd a bennir yn Atodlen 1 ac Atodlen 2.

11. Nid yw'r gwaharddiad a gyflwynir gan erthygl 10 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Dyddiedig y 24$^{ain}$ dydd o Fawrth 2026.

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** gan **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR** yma ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig: [redacted]

ATODLEN 1

Rhannau o ffyrdd sy'n destun i derfyn cyflymder 40-mya yn barhaol er mwyn creu clustogfa

| Enw'r Ffordd | Graddfa'r terfyn cyflymder 40-mya | Rhif |
|---|---|---|
| A4061 Nantymoel | O bwynt i'r gogledd o'r gyffordd â'r A4061 a Heol yr Orsaf, tua'r gogledd am bellter o tua 300 metr. | 1. |
| Heol Newydd, Tondu | O bwynt i'r gogledd o'i chyffordd â Heol Derllwyn tua'r gogledd am bellter o tua 400 metr. | 2. |
| Heol Castell-nedd, Maesteg | O ochr orllewinol cyffordd Heol Castell-nedd â Thair Waun Place, Maesteg tua'r gogledd-orllewin am bellter o tua 300 metr. | 3. |
| Heol Betws rhwng Brynmenyn a Betws | O bwynt tua 90 metr i'r gogledd o ffin ogleddol eiddo rhif 20 Heol Betws tua'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain i bwynt tua 87 metr i'r de o'i chyffordd gyda Rhodfa Tudur Betws, pellter o tua 1.1 cilometr. | 4. |
| Lôn o Heol Betws i Goetrahen | O'r gyffordd â Heol Betws tua'r gorllewin am bellter o tua 995 metr | 5. |
| A4093 Glynowgr | O bwynt 145 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â'r lôn ddienw ochr yn ochr â'r tŷ o'r enw White Croft Glynogwr i'r dwyrain ac i'r de-ddwyrain am bellter o tua 1.2 cilomedr. | 6. |

ATODLEN 2

Dirymu gorchymyn presennol o ganlyniad i'r terfyn cyflymder 40-mya a nodir uchod

| Enw'r Ffordd | Gorchymyn Presennol | Graddfa'r Dirymiad |
|---|---|---|
| A4093 Glynogwr | Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Ffyrdd Amrywiol) (Dirymu ac Amrywio Terfynau Cyflymder) 2024 | Mae paragraff 51 o Atodlen 1 wedi'i ddirymu fel bod terfyn cyflymder o 40-mya yn gymwys i'r darn penodedig o ffordd. |